Enw _____

DARLLENWCH
Luc 2: 1-20

ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 11

Gwers 3 Y Nadolig Cyntaf – Ym Methlehem

Mae mynd ar daith yn gallu bod yn hwyl, ond os nad ydych yn teimlo'n dda, mae'n gallu bod yn galed iawn. Doedd Mair ddim yn sâl ond roedd hi'n amser iddi gael ei babi. Roedd rhaid iddi hi a Joseff deithio i dref arall tua 70 milltir i ffwrdd. Cofiwch, doedd dim trenau na cheir. Roedd y ffyrdd yn arw ac weithiau'n beryglus iawn.



Q Edrychwch eto ar adnodau 1 i 4 ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU'CH HUNAN pam roedd Mair a Joseff yn gorfod mynd i Fethlehem.

2

C Tynnwch linell syth o bob cwestiwn i'r ateb cywir.

Pwy oedd yn llywodraethu ar Syria?	Nasareth
Lle roedd Mair a Joseff yn byw?	y gwesty
Lle cafodd y Brenin Dafydd ei eni?	Cyrenius
Lle oedd yn llawn?	Bethlehem



4

C Beth a ddefnyddiodd Mair fel crud ar gyfer ei Baban?

1

C Mewn beth wnaeth Mair rwymo ei Baban?

1

C Pwy oedd yn y caeau yn gofalu am eu defaid?

1

Q Lliwiwch y geiriau cywir o neges yr angel.

Newydd Da

Cariad Mawr

Gobaith Ardderchog

Llawenydd Mawr

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

C **Rhowch y geiriau yn y drefn gywir i weld beth ddywedodd yr angylion. Ysgrifennwch eich ateb yn y bocs.**

2

i ddaear ar y goruchaf yn y tangnefedd Dduw ac gogoniant

C **Atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod am y bugeiliaid:**

3

Fe benderfynon nhw fynd i chwilio yn y bore. .....

Aethon nhw i Fethlehem a chael y Baban yn gorwedd mewn preseb. .....

Ddywedon nhw ddim wrth neb am y newyddion da. .....

C **Edrychwch ar ddiwedd y Darlleniad o'r Beibl. Yn y bylchau, ysgrifennwch rif yr adnod sy'n dweud (a) beth a wnaeth Mair a (b) beth a wnaeth y bugeiliaid**



2

Beth yw'ch ymateb chi i beth ddigwyddodd ym Methlehem? On'd ydi hi'n anhygoel meddwl bod Mab Duw wedi dod yn faban bach diniwed! Bod yr Un a greodd y byd wedi bod yn gorwedd mewn preseb!

Diolch Dduw am anfon Iesu;
Diolch Iesu i Ti am ddod;
Ysbryd Glân, a wnei Di'n dysgu
Sut y gallwn ni roi clod?

Ydych chi wedi meddwl pam?

Os darllenwch Ioan 3: 16, fe welwch yr ateb. Roedd Duw yn ein caru gymaint fel ei fod wedi rhoi anrheg werthfawr i ni, Ei unig Fab. Ar adeg y Nadolig, rydyn ni'n cael anrhegion ac yn dweud "Diolch". Ydych chi wedi derbyn yr Arglwydd Iesu i'ch bywyd fel Gwaredwr ac wedi diolch i Dduw am Ei Anrheg ardderchog?